

# Adroddiad Cadwraeth

2025 - 2026

CYMRU WYLLT
WILD CYMRU

# Adroddiad Cadwraeth 2025 / 2026

Cyfnod Adrodd: Ebrill 2025 – Mawrth 2026

Annwyl Gefnogwr,

Nid oedd newid ein henw o *Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC)* i *Cymru Wyllt* eleni yn benderfyniad hawdd ei wneud. Roeddem yn ymwybodol iawn, fel *INCC*, ein bod wedi sefydlu enw da fel sefydliad cadwraeth natur annibynnol oedd ddim yn petruso o gwbl am ddal pŵer i gyfrif, oedd yn llwyddo i gyflawni prosiectau adfer rhywogaethau a chynefinoedd a'n bod wedi datblygu cefnogaeth ffyddlon pobl fel chi. Y rheswm dros newid yr enw yw ein cymhelliant i gyflawni cymaint mwy dros fyd natur Cymru. I wneud hynny, rhaid i ni ehangu ein hapêl a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac, er gwaethaf ein hoffter mawr o'r enw *INCC*, rydym yn credu bod *Cymru Wyllt* yn enw symlach a mwy hygyrch ac y bydd yn ein helpu ni i wneud hynny.

Heb os, rwyf yn credu bod gwireddu ein huchelgais hirhoedlog o sefydlu Uned Ymchwiliadau Natur yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer cadwraeth natur yng Nghymru. Mae'n unigryw yma ac mae'n dangos ein huchelgais ni i edrych ar ffyrdd newydd a gwirioneddol effeithiol o sefyll dros fywyd gwyllt. Bydd y tîm newydd yn datgelu arferion sy'n niweidio byd natur ac yn gofyn y cwestiynau na fydd neb arall yn eu codi. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at weld beth fyddant yn ei ddatgelu dros y flwyddyn nesaf.

Wrth gwrs, ochr yn ochr â'r uchod, parhaodd staff a gwirfoddolwyr Cymru Wyllt i gyflawni prosiectau rhywogaethau a chynefinoedd pwysig mewn gwahanol safleoedd ledled Cymru, yn ogystal ag yn Llwyndewi, ein gwarchodfa natur ni yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n bleser rhannu newyddion o'r prosiectau hyn gyda chi yn yr Adroddiad hwn.

Er mwyn cynnal ein hannibyniaeth a chryfhau ein llais, nid ydym yn derbyn cyllid gan y llywodraeth na chyllid statudol. Mae hyn yn golygu ein bod yn dibynnu ar haelioni cefnogwyr, cyfranwyr a gwirfoddolwyr fel chi ac yn ddiolchgar iawn amdano. Diolch i chi i gyd. Helpwch ni drwy ledaenu'r gair am *Cymru Wyllt* a'n cyfnodolyn, *Natur Cymru.*

Daniel Jenkins-Jones (Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr)


## Cymru Wyllt

**Y Ganolfan**
**Wyddoniaeth**
**d/o Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA32 8HG**

info@wild.cymru

www.wild.cymru


Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

**Clawr Blaen:** Mulfran Werdd *Gulosus aristotelis. Ffotograff:*

# Cynnwys


**Pwy Ydym Ni a Beth Rydym yn Sefyll Drosto** .................................. Tudalen 3
Gweledigaeth Cymru Wyllt ........................................................ Tudalen 3
Cenhadaeth Cymru Wyllt .......................................................... Tudalen 3
Llywodraethu...................................................................... Tudalen 3
Staff............................................................................. Tudalen 3
Safle yn y Sector................................................................. Tudalen 3
Gweithgareddau.................................................................... Tudalen 3
Amcanion.......................................................................... Tudalen 4
Cymru Wyllt – Enw Newydd i Bennod Newydd.......................................... Tudalen 4
Cynllun Busnes.................................................................... Tudalen 5

**Ymchwiliadau Natur**.............................................................. Tudalen 6
Uned Ymchwiliadau.................................................................. Tudalen 6
Newyddiaduraeth Ymgyrchu............................................................ Tudalen 7
Dim Mwy o Danau Gwyllt.............................................................. Tudalen 8

**Adfer Rhywogaethau**.............................................................. Tudalen 10
Atgyfnerthu Poblogaethau Britheg y Gors............................................ Tudalen 10
Ailgyflwyno Llygod Pengrwn y Dŵr – Afon Ddawan...................................... Tudalen 13
Ailgyflwyno Britheg y Gors yng Ngogledd Sir Benfro.................................. Tudalen 14
Achub Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd.......................................... Tudalen 15
SWAMP.............................................................................. Tudalen 18
Arolygon Rhywogaethau Cefn Garthenor................................................ Tudalen 19
Cadwraeth Gymunedol yn Nyffryn Aman................................................. Tudalen 22
Monitro'r Gwybedog Brith............................................................ Tudalen 24
Monitro Tylluanod Gwynion........................................................... Tudalen 25
Prosiect Cadwraeth Titw'r Helyg..................................................... Tudalen 26

**Adfer Cynefinoedd** .............................................................. Tudalen 29
Fferm Vale......................................................................... Tudalen 29
Gwarchodfa Natur Llwyndewi.......................................................... Tudalen 30

**Cefnogi Cadwraethwyr ar Ddechrau eu Gyrfa**........................................ Tudalen 33
Swyddogion Cynorthwyol.............................................................. Tudalen 33
Penwythnos Preswyl Cefn Garthenor................................................... Tudalen 39
Penwythnosau Preswyl Gwarchodfa Natur Llwyndewi...................................... Tudalen 39
Monitro Rhywogaethau Gan Ddefnyddio Camerâu Llwybr Bywyd Gwyllt...................... Tudalen 40

**Natur Cymru**...................................................................... Tudalen 41

**Gair o Ddiolch**.................................................................... Tudalen 42

# Pwy Ydym Ni a Beth Rydym yn Sefyll Drosto

## Gweledigaeth Cymru Wyllt

Cymru gyda mwy o fywyd gwyllt mewn mwy o lefydd, wedi'i chreu gan gymdeithas sy'n rhoi gwerth cynhenid ar fyd natur.

## Cenhadaeth Cymru Wyllt

Bod y llais digyfyngiad sydd ei angen ar fywyd gwyllt Cymru, gan godi llais a rhoi anghenion bywyd gwyllt yn gyntaf.

### Ymddiriedolwyr


- **Cadeirydd:** Daniel Jenkins-Jones
- **Trysorydd**: Carys Solman
- **Ysgrifennydd**: Dr Rob Thomas
- **Ymddiriedolwr**: Dr Mike Shewring
- **Ymddiriedolwr**: Julian Jones
- **Ymddiriedolwr**: Lyndsey Maiden


### Staff


- **Prif Weithredwr**: Robert Jones Parry
- **Golygydd Natur Cymru:** Dr Lizzie Wilberforce
- **Swyddog Rhywogaethau**: Vaughn Matthews
- **Swyddog Cadwraeth**: Eliza Chapman
- **Swyddog Cadwraeth**: Richard Bluck
- **Warden Gwarchodfa Cynorthwyol:** Olivia Davies
- **Warden Gwarchodfa Cynorthwyol:** Matt Brown
- **Lleoliad Myfyriwr**: Faith Campion
- **Swyddog Cyfathrebu**: Laurence Whitaker
- **Newyddiadurwr Ymchwiliol**: Helen Callaghan


### Safle yn y Sector

Sefydlwyd INCC yn 2018 mewn ymateb i'r angen cynyddol am sefydliad cadwraeth natur annibynnol a all godi llais a herio'r

rhai sy’n gwneud penderfyniadau amgylcheddol i wneud mwy dros fywyd gwyllt.

## Gweithgareddau

- Cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd
- Ymchwil, arolygon a monitro
- Adfer a chreu cynefinoedd
- Cyngor a chefnogaeth i berchnogion tir
- Ymgysylltu ac addysg
- Eiriolaeth, ymgyfreitha ac ymgyrchoedd

## Amcanion

Amcanion Cymru Wyllt, fel yr amlinellir yn ein dogfen lywodraethu, yw:

- Hyrwyddo, er budd y cyhoedd, y gwaith o gadw, gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Cymru mewn ffyrdd y gwêl yr ymddiriedolwyr yn dda a chan gynnwys drwy eiriolaeth, cynnal ymchwil a chyhoeddi canlyniadau defnyddiol hynny, a hyrwyddo bioamrywiaeth.

- Hyrwyddo addysg y cyhoedd mewn cadwraeth, gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Cymru drwy ddarparu gwybodaeth a thrwy godi ymwybyddiaeth.

## Cymru Wyllt – Enw Newydd i Bennod Newydd

Rydym wedi penderfynu newid enw'r elusen, ac rydym wedi cyffroi'n fawr am hyn. Ers mis Mawrth 2026, mae Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru yn cael ei hadnabod bellach fel Cymru Wyllt.

Mae pennod nesaf siwrnai Cymru Wyllt yn un gyffrous. Er y bydd ein gwaith parhaus ni'n parhau mor gryf ag erioed, rydym eisiau datblygu i fod yn fwy. Gyda'r ailfrandio daw lansio ein Huned Ymchwiliadau Natur newydd. Bydd y tîm yma'n gweithio'n ddiflino i ddatgelu'r problemau cudd (a'r rhai sydd ddim mor gudd) mae bywyd gwyllt yng Nghymru yn eu hwynebu bob dydd. O gamreoli adnoddau naturiol i droseddau bywyd gwyllt a'i erlid, a llawer o faterion eraill, Cymru Wyllt fydd y llais sy'n siarad dros fyd natur lle mae lleisiau eraill yn methu.

Nid ydym yn derbyn cyllid gan y llywodraeth o hyd. Rydym yn benderfynol o hyd i herio'r rhai fyddai'n niweidio ein byd naturiol a'u dal i gyfrif. Rydym yn dal yma i frwydro dros Gymru wylltach.

Rydym yn credu y bydd ein henw newydd yn ein helpu ni i ddod â chadwraethwyr a'r cyhoedd ehangach at ei gilydd wrth dyfu ein huchelgeisiau a chwyddo ein lleisiau. Mae Cymru Wyllt yn galetach, yn gliriach ac yn fwy effeithiol, a fydd yn ein helpu ni i dyfu ein cynulleidfa a chynyddu'r gefnogaeth i fyd natur ymhlith y cyhoedd yng Nghymru.

Bydd cylchgrawn Natur Cymru yn aros yr un fath: dim ond logo gwahanol ar y clawr blaen.

Ni fyddem wedi gallu cyflawni cymaint heb eich help chi, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich cludo gyda ni ar ran nesaf ein siwrnai.

## Cynllun Busnes

Mae'r cynllun busnes hwn yn cynnwys ein blaenoriaethau ni ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ac yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu Uned Ymchwiliadau Natur
- Cyflwyno a dangos arferion gorau o ran rheoli tir
- Adfer rhywogaethau
- Datblygu cyrhaeddiad ac effaith *Natur Cymru*
- Cefnogi cadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa

Mae gennym hefyd flaenoriaethau datblygu sefydliadol, sef:

- Cynyddu sylfaen cyfranwyr Cymru Wyllt a chyfanswm y rhoddion blynyddol
- Adolygu swyddogaethau’r Bwrdd, hyfforddiant a chynllunio olyniaeth
- Cynyddu cronfeydd digyfyngiad Cymru Wyllt
- Codi proffil cyhoeddus Cymru Wyllt

# Ymchwiliadau Natur

Mae siarad dros fywyd gwyllt drwy ymgyrchu a herio pobl sy'n gwneud penderfyniadau amgylcheddol yn greiddiol i waith Cymru Wyllt.
Er mwyn sicrhau bod ein hymgyrchu'n cael cymaint o effaith â phosibl, rydym yn gweithio'n agos gyda'r cwmni cyfreithiol amgylcheddol Leigh Day. Mae heriau cyfreithiol yn dod yn adnodd cynyddol angenrheidiol yn y frwydr dros Gymru sydd â mwy o fywyd gwyllt.

## Uned Ymchwiliadau

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae Cymru Wyllt wedi bod yn codi arian i greu Uned Ymchwiliadau Natur. Diolch i gyfraniad hael rhoddwyr, ymddiriedolaethau sy'n dyfarnu grantiau a chefnogwyr, mae Cymru Wyllt wedi gallu codi digon o arian i greu ei Huned Ymchwiliadau Natur.

Y cyntaf i ymuno â'r tîm oedd Laurence Whitaker, ym mis Tachwedd 2025, fel ein Swyddog Cyfathrebu newydd. Mae gan Laurence gefndir mewn radio darlledu a chreu a chynhyrchu ffilmiau bywyd gwyllt ar gyfer y BBC, Netflix ac eraill. Bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu cyrhaeddiad a sylfaen cynulleidfa Cymru Wyllt er mwyn i ymchwiliadau ac elfennau eraill o'n gwaith gael effaith fwy.



Laurence Whitaker, Swyddog Cyfathrebu Cymru Wyllt.

Ym mis Chwefror 2026, ymunodd Helen Callaghan â'r tîm fel ein Newyddiadurwr Ymchwiliol newydd. Mae gan Helen flynyddoedd lawer o brofiad fel gohebydd a newyddiadurwr darlledu, gan weithio i allfeydd fel

ITV a'r BBC. Mae gan Helen hefyd brofiad mewn ymchwil, newyddiaduraeth print a chynhyrchu.

Gyda chefnogaeth gan staff presennol Cymru Wyllt, mae Helen a Laurence yn ffurfio craidd yr Uned Ymchwiliadau Natur.



Helen Callaghan, Newyddiadurwr Ymchwiliol Cymru Wyllt.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rydym eisiau arloesi newid sylfaenol yn y sector cadwraeth natur a fydd yn gweld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddal pobl sy'n gwneud penderfyniadau amgylcheddol i gyfrif.

Rydym eisiau cyflawni hyn drwy ddatgelu a herio agweddau, diffyg gweithredu a gwneud penderfyniadau, lle mae ganddo'r potensial i effeithio ar fywyd gwyllt a chadwraeth natur yng Nghymru.

Rydym eisoes wedi cyfweld ag Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru (yr Athro Lynda Warren) ynghylch ei rôl wrth gynghori Gweinidogion Cymru ar ddeddfwriaeth amgylcheddol.

Drwy gydol 2026, bydd yr Uned Ymchwiliadau yn ymchwilio i faterion fel:

1. Tanau gwyllt a llosgi rhagnodedig.
2. Rôl tangyllido Llywodraeth Cymru a'i effeithiau ar adferiad natur.
3. Adfywio conwydd – pwy sy'n gyfrifol a beth yw'r goblygiadau i fywyd gwyllt.
4. Dod o hyd i afon lanaf Cymru.

## Newyddiaduraeth Ymgyrchu

Newyddiaduraeth Ymgyrchu fydd ein dull o ymchwilio. Yn syml, ein newyddiaduraeth ymgyrchu yw eiriolaeth dros fywyd gwyllt Cymru. Nid yw'n ddiduedd, ond mae wedi'i seilio ar ethos budd y cyhoedd.

- Rydym yn dryloyw ynglŷn â'n heiriolaeth a'n hymchwiliadau.
- Mae'r wybodaeth rydym yn ei defnyddio’n fanwl gywir ac yn seiliedig ar ffynonellau y mae modd eu gwirio.
- Bydd sylwadau (gan gynnwys barn a dadansoddiad) a wneir gan Cymru Wyllt ac eraill yn seiliedig ar arbenigedd neu brofiad ac yn cael eu cynnal yn onest ar faterion o fudd i'r cyhoedd.
- Rydym yn gweithredu'n annibynnol; yn rhydd o gysylltiadau â Llywodraeth Cymru, corfforaethol neu bleidiau gwleidyddol.
- Rydym yn broffesiynol, yn gwrtais, a hefyd yn gadarn lle mae hynny’n briodol, yn ein trafodaethau gyda phobl a sefydliadau.

Bydd glynu wrth yr athroniaeth hon yn ein helpu i amddiffyn yn hyderus drylwyredd ac integriti ein newyddiaduraeth yn erbyn unrhyw awgrym bod ein cymhellion efallai’n hunanfuddiannol neu'n flinderus. Bydd hefyd yn helpu i amddiffyn yn erbyn y rhai sy'n ceisio diystyru'r newyddiaduraeth a'i chanfyddiadau.

## Dim Mwy o Danau Gwyllt

Mae cyfnod arall o danau gwyllt wedi bod yng Nghymru yn ystod y gwanwyn hwn. Roedd misoedd gwlypach Chwefror a Mawrth yn golygu bod mwy o losgi wedi'i gynnal ym mis Ebrill a hyd yn oed ym mis Mai mewn rhannau o Gymru. Byddai'r tanau hwyr hyn wedi cael effaith enfawr ar fywyd gwyllt.

Yn anffodus, mae tanau gwyllt yn ddigwyddiad blynyddol sy'n achosi colli cynefinoedd a bywyd gwyllt ar raddfa fawr. Er ein bod yn gwybod

eisoes bod llosgi bwriadol uniongyrchol a damweiniau’n rhan fawr o'r broblem, mae llawer llai o wybodaeth am 'losgi rhagnodedig' gyda chaniatâd cyfreithiol sy'n mynd o chwith.

Mae Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt ac ati (Cymru) 2008 a'r Cod cysylltiedig yn nodi bod llosgi rhagnodedig yn cael ei ganiatáu yn ystod oriau golau dydd rhwng 1af Hydref a 31ain Mawrth yn yr ucheldir, a 1af Tachwedd a 15fed Mawrth ym mhobman arall. Mae angen cynllun llosgi, ac mae templed i'w lenwi ar gael o wefan Llywodraeth Cymru.

Dylai'r cynllun fanylu ar yr ardal darged, y canlyniad a ddymunir a ble a phryd mae'n digwydd. Dylid hysbysu cymdogion a gwasanaethau tân ac achub. Dylid mapio ardaloedd na ellir eu llosgi a pharatoi bylchau tân.

Mae ffermwyr a rheolwyr tir yn llosgi ardaloedd penodol o dirwedd er mwyn gwella pori, rheoli planhigion penodol, neu gael gwared ar lystyfiant fflamadwy i leihau'r risg o danau gwyllt.



Ochr mynydd yn Nyffryn Aman ar ôl tân diweddar.

I'r rhai sy'n cynnal llosgi rhagnodedig yn unol â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt ac ati (Cymru) 2008 a'r Cod cysylltiedig, mae paratoi, sgiliau a phrofiad yn rhagofynion.



Cynrychiolwyr yn Llyn Efyrnwy yn trafod effeithiau amgylcheddol tanau glaswellt a newidiadau posibl i Reoliadau Llosgi Grug a Glaswellt ac ati (Cymru) 2008

Ond i'r rhai sydd ddim yn cydymffurfio, boed drwy

anwybodaeth neu wrthod ymgysylltu, ychydig iawn sydd yn y system fonitro a rheoleiddio bresennol i'w hatal. Amlinellodd Cymru Wyllt y pryderon hyn i Asesydd Annibynnol Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) ac, o ganlyniad i'r cyflwyniad, ymchwiliodd yr IEPAW, gan gynnal sesiwn casglu tystiolaeth ger Llyn Efyrnwy ym mis Mawrth.

Cyfrannodd y drafodaeth honno at adroddiad yr IEPAW ar losgi dan reolaeth, a baratowyd ar gyfer Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

# Adfer Rhywogaethau

Mae Cymru Wyllt yn credu bod adfer rhywogaethau (a phoblogaethau o rywogaethau) i'r dirwedd yn elfen bwysig o weithredu cadwraeth natur yng Nghymru.

Mae adfer cynefinoedd yn hanfodol, ond os ydym am wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, credwn fod angen dulliau cadwraeth mwy rhagweithiol nawr, ac ymyrraeth bellach. Mae gweithio ar raddfa'r dirwedd wedi bod yn agwedd bwysig bob amser ar sut mae Cymru Wyllt yn cyflawni ei gweithgareddau cadwraeth natur ymarferol. Rydym yn gwneud hyn drwy nodi rhywogaethau sy'n gallu gweithredu fel rhywogaethau blaenllaw i'w tirwedd a darparu dull o annog cymunedau lleol i fod wrth galon y gweithredu cadwraeth.

## Atgyfnerthu Poblogaethau Britheg y Gors

Efallai mai ein prosiect i adfer poblogaeth Britheg y Gors yw'r enghraifft orau o sut rydym yn gwneud hyn.

Mae Britheg y Gors wedi dirywio'n eang ar draws llawer o'i hamrediad naturiol, gan gynnwys y DU. Mae'r rhywogaeth bellach yn un o'r glöynnod byw sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf yn Ewrop. Mae Cymru'n parhau i fod yn gadarnle cymharol i Fritheg y Gors yn fyd-eang, ond hyd yn oed yma, mae'r boblogaeth yn dirywio ac mae difodiant lleol yn parhau i ddigwydd.




Britheg y Gors yn Y Gweira 14/05/25

Mae ein prosiect atgyfnerthu Britheg y Gors wedi bod yn weithredol ers pum mlynedd bellach, ar ôl magu lindys mewn caethiwed am y tro cyntaf yn ôl yn 2021.

Mae'r prosiect yn atgyfnerthu poblogaeth sy'n lleihau ac yn agored i niwed o'r glöyn byw mewn tirwedd yn Ne Cymru, o amgylch trefi Llantrisant a Thonyrefail, gan

ddod â nhw yn ôl fel eu bod yn gallu ailboblogi Comin Llantrisant a gweddill y dirwedd.




Britheg y Gors yn y gorlan fagu 05/05/25.

Ni chasglwyd unrhyw lindys yn 2025 gan fod gennym niferoedd digonol yn y corlannau magu eisoes o griw 2024. Daeth y glöyn byw cyntaf i gael ei gofnodi yn 2025 i'r golwg yn y corlannau magu ar 5ed Mai gydag adroddiad o un wedi'i weld ar Gomin Llantrisant y diwrnod cynt.

Yn ystod diwedd y gwanwyn a haf 2025, fe wnaethom barhau i fonitro'r Fritheg y Gors yn y corlannau magu ac, i raddau llai, ar y Comin. Roedd llai o ymweliadau â'r Comin yn bosibl yn 2025 felly mae'n debyg nad yw'r map isod yn gwbl gynrychioliadol o'u dosbarthiad llawn. Fodd bynnag, mae'n galonogol gweld pa mor dda yw eu dosbarthiad o hyd.



Lleoliadau'r Britheg y Gors yn oedolion a welwyd ar Gomin Llantrisant 2025.

Yn gynnar yn hydref 2025 rhyddhawyd mwy o larfa ar y Comin i barhau i atgyfnerthu'r boblogaeth.



Lleoliadau'r lindys Britheg y Gors a ryddhawyd ar Gomin Llantrisant yn 2025.

## Llwyddiant Magu

Oherwydd cyfyngiadau amser a thywydd gwael, cynhaliwyd llai o gyfrifiadau gweoedd larfaol ym misoedd Awst a Medi 2025. O ganlyniad, dim ond nifer bach o weoedd a gofnodwyd, er eu bod wedi'u dosbarthu'n eang ar draws y safle, gan wneud unrhyw gasgliadau'n anodd eleni.



Gweoedd larfaol Britheg y Gors a gofnodwyd ar Gomin Llantrisant yn hydref 2025.

Fel y llynedd, roedd y gweoedd yn cydberthyn yn fras â lle gwelwyd oedolion yn gynharach yn y tymor.

Gwelwyd y larfa cyntaf yn dod allan o'u gaeafgwsg yn y corlannau magu ar y 3ydd o Chwefror. Yn 2026 byddwn yn parhau i'w magu, gyda'r larfa i'w rhyddhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Adfer Cynefinoedd

Yn 2025, parhawyd â'r gwaith o reoli cynefinoedd a wnaed yn 2024. Aseswyd ardaloedd a dorrwyd yn flaenorol i weld pa mor dda roeddent yn adfer. Roedd yn ymddangos fel pe bai strwythur y llystyfiant wedi gwella'n fawr ar ôl torri felly dewiswyd mwy o ardaloedd ar gyfer 2025 (gan gofio lle'r oedd gweoedd larfaol wedi'u canfod yn flaenorol). Eto, roedd ffocws y torri ar ardaloedd o Laswellt y Gweunydd, *Molinia caerulea* bras a rhai clytiau ungnwd mawr o Redyn *Pteridium aquilinum*.

Fel yn 2024, gwnaed y gwaith torri gan Gyngor Rhondda Cynon Taf a dylai ganiatáu i gynefinoedd mwy addas ac amrywiol barhau i ddatblygu. Byddwn yn parhau i ailymweld â'r safleoedd hyn a'r rhai a dorrwyd yn 2024 i asesu pa mor dda maent yn datblygu. Mewn ardaloedd lle mae'r strwythur yn addas ar gyfer Britheg y Gors ond lle mae diffyg Tamaid y Cythraul *Succisa pratensis* (planhigyn bwyd

larfa Britheg y Gors), byddwn yn ystyried gwasgaru hadau a gasglwyd o blanhigion Tamaid y Cythraul mewn mannau eraill ar y Comin.



Peiriant torri a chasglu wedi'i dracio ar waith ar Gomin Llantrisant. Chwefror 2026.

## Ailgyflwyno Llygod Pengrwn y Dŵr i Afon Ddawan

Yn 2024 a 2025, ailgyflwynodd Cymru Wyllt (gan weithio gyda pherchnogion tir lleol a sefydliadau partner) fwy na 170 o Lygod Pengrwn y Dŵr *Arvicola amphibius* i Afon Ddawan ym Mro Morgannwg. Roedd rhyddhau'r Llygod Pengrwn y Dŵr yn ganlyniad i sawl blwyddyn o gynllunio, adfer cynefin, a rheoli'r Minc Americanaidd *Neovison vison*. Roedd Llygod Pengrwn y Dŵr yn cael eu cofnodi yn Nyffryn Ddawan tan 2004, cyn iddynt ddiflannu.

Er bod ymlediad prysgwydd ac amaethyddiaeth ddwys wedi effeithio ar gynefin glan afon y Ddawan, credir mai'r prif reswm dros ddifodiant Llygod Pengrwn y Dŵr ugain mlynedd yn ôl oedd presenoldeb y Minc Americanaidd.

Dangosodd arolygon a gynhaliwyd yn 2025 ar hyd Afon Ddawan a'i hisafonydd fod y Llygod Pengrwn y Dŵr wedi ymledu ar hyd yr afon ac maent bellach yn byw mewn llawer o gyrion isaf a chanol yr afon.



Llygoden Bengron y Dŵr yn bwydo mewn cynefin gwlybdir yn nyffryn yr afon Ddawan.

Bydd y prosiect yn parhau i adfer y cynefin a rheoli'r Minc ar draws Dyffryn Ddawan ac mae

ailgyflwyno pellach wedi'i gynllunio yn y dyfodol.

## Ailgyflwyno Britheg y Gors yng Ngogledd Sir Benfro

Mae Cymru Wyllt wedi bod yn gweithio ar brosiect uchelgeisiol i ailgyflwyno Britheg y Gors i Ogledd Sir Benfro gyda Dr Beynon's Bug Farm.

Yn dilyn cais llwyddiannus am drwydded yn 2025, mae Cymru Wyllt a staff a gwirfoddolwyr Sarah Beynon's Bug Farm wedi gallu casglu 80 o lindys Britheg y Gors o'r gwyllt i'w magu mewn caethiwed.



Lindys Britheg y Gors (wedi'u casglu o safleoedd yn Sir Benfro) yn bwydo y tu mewn i'w corlan fagu.

Wedyn bydd epil yr 80 o lindys yn sail i'r rhaglen fagu a'r ailgyflwyno. Casglwyd lindys o bedwar safle gwahanol ledled Sir Benfro a gorllewin Sir Gaerfyrddin.

Ar y dechrau, mae'r lindys yn cael eu cadw ar wahân i boblogaethau eraill sydd wedi'u casglu. Mae hyn er mwyn i staff allu gwirio'r lindys am y wenynen feirch barasitoid *Cotesia bignelli*.



Cocŵns *C. bignelli* wedi glynu wrth lindys glöyn byw Britheg y Gors. Mae larfa'r wenynen feirch yn ffrwydro allan o'r lindysyn yn gynnar yn y gwanwyn, ar ôl treulio'r gaeaf yn bwyta tu mewn y lindysyn yn araf. Unwaith bydd wedi dod allan o'r lindysyn, mae larfa'r wenynen feirch yn creu cocŵn gwarchodol yn gyflym, ac mae'r wenynen sy'n oedolyn yn dod allan tua 14 diwrnod yn ddiweddarach.

Mae'r wenynen feirch yn hynod brin gan mai ei hunig rywogaeth gynnal yw glöyn byw Britheg y Gors. Pan rydym yn dod o hyd i wenyn meirch (cocŵns larfaol) yn y corlannau magu, maent yn cael eu symud oddi yno a'u rhyddhau'n ôl i'r safle cyfrannu lle casglwyd y lindys ohono.

## Achub Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd

Yn 2024, fe ddechreuodd INCC ei Brosiect Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd uchelgeisiol, diolch i gyllid gan Gronfa Gweledigaeth Gymunedol Pen Y Cymoedd.



Llygoden Bengron y Dŵr. Ffotograff: Tim Melling.

Mae'r prosiect wedi'i leoli yn ucheldiroedd cymoedd Cynon, Rhondda, Nedd ac Afan, rhai o'r llochesi olaf i'r rhywogaeth brin a rhyfeddol hon yng Nghymru. Mae'r dirwedd yn un o'r lleoliadau olaf i ni wybod amdano ar gyfer y poblogaethau presennol o Lygod Pengrwn y Dŵr ym Morgannwg gyfan.

Ar ddiwedd 2025, roedd tîm Cymru Wyllt wedi arolygu cyfanswm o 42 o leoliadau yn ucheldiroedd Morgannwg ac wedi cofnodi 26 o boblogaethau.



Dosbarthiad Llygod Pengrwn y Dŵr yn ucheldiroedd Morgannwg 2025.

### Ymchwil a Geneteg

Wrth arolygu am Lygod Pengrwn y Dŵr yn ardal y prosiect, rydym wedi bod yn casglu tail o'u 'toiledau' neu 'dai bach' er mwyn i ni allu cynnal prawf dadansoddi perthynas i benderfynu pa mor agos yw'r berthynas rhwng y 26 o

boblogaethau o Lygod Pengrwn y Dŵr. I wneud y gwaith hwn, rydym wedi ymuno â Phrifysgol Aberystwyth, sy'n arbenigwyr ym maes geneteg poblogaethau.




Casglu tail Llygoden Bengron y Dŵr ar gyfer profion genetig yn y dyfodol. Mae pob tail sy'n cael ei gasglu'n cael cyfeirnod tri rhif. Wedyn rydym yn nodi cyfeirnod grid fel ein bod ni, ar ôl cynnal y dadansoddiad, yn gallu dweud o ble daeth y tail yn y dirwedd.

Mae prosiect ymchwil arall rydym yn ymgymryd ag ef yn ardal y prosiect yn cynnwys ceisio nodi maint tiriogaeth y Llygod Pengrwn y Dŵr. Bydd gwybod beth yw maint tiriogaeth y Llygod Pengrwn y Dŵr yn ucheldiroedd Morgannwg yn rhoi syniad i Cymru Wyllt o faint o Lygod Pengrwn y Dŵr sydd mewn ardal benodol.

I sefydlu maint y diriogaeth rydym yn defnyddio gliter bwytadwy, biobydradwy. Y gobaith yw y bydd y gliter bwytadwy, ar ôl iddo gael ei dreulio gan y Llygoden Bengron y Dŵr, yn cael ei basio drwy ei system er mwyn i staff ddod o hyd i'r gliter yn nhail y Llygoden Bengron y Dŵr dros y dyddiau canlynol.



Tail Llygoden Bengron y Dŵr yn dangos gliter biobydradwy gwyrdd fel rhan o dreialon cychwynnol gyda Llygod Pengrwn y Dŵr mewn caethiwed.

Wedyn bydd staff Cymru Wyllt yn chwilio am y tail llawn gliter ar hyd y ffos lle maen nhw i'w gweld. Mae Llygod Pengrwn y Dŵr yn gadael eu tail mewn tomenni penodol (tai bach, neu *latrines* yn Saesneg). Mae'r tai bach yma'n farcwyr tiriogaeth, ac

mae Llygod Pengrwn y Dŵr yn gwneud llawer o ymdrech i gynnal eu tai bach er mwyn gwarchod eu tiriogaeth.

Drwy ddod o hyd i'r holl dai bach llawn gliter ar hyd y ffos a'r ardaloedd corsiog cyfagos, gallwn greu darlun gwell o raddfa lawn tiriogaeth un Llygoden Bengron y Dŵr. Y gorsafoedd abwyd fydd Camerâu Twll Cymru Wyllt, sef systemau artiffisial o dyllau gyda mynedfa yn un pen a chamera yn y pen arall. Bydd hyn yn bwysig wrth nodi pa anifeiliaid sydd wedi cymryd yr abwyd ac a yw mwy nag un Llygoden Bengron y Dŵr yn cael ei denu at yr afal.

## Ymgysylltu Cymunedol

Mae ymgysylltu cymunedol yn rhan bwysig o'r prosiect a’r tu allan i'r tymor magu mae’r ymdrechion yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau cyhoeddus a hyfforddi gwirfoddolwyr.

Cyflwynwyd dyddiau hyfforddi wedi'u targedu ar gyfer gwirfoddolwyr cymunedol lleol, staff Cyngor Dinas Abertawe ac ecolegwyr llawrydd oedd â phrofiad o arolygu Llygod Pengrwn y Dŵr ar dir isel ond profiad cyfyngedig o ddulliau arolygu yn yr ucheldir. Mae'r prosiect hefyd wedi cefnogi dau fyfyriwr o Brifysgol Caerdydd drwy brofiad maes ymarferol a mentora. Yn ogystal, cyflwynwyd sgyrsiau cyhoeddus a theithiau cerdded tywys yn yr ucheldir ar gyfer Coleg y Mynyddoedd Duon a Chroeso i'n Coedwigoedd yn Nhreherbert, gan ddarparu cyfleoedd dysgu pellach yn gysylltiedig â chadwraeth yr ucheldir.



Staff Cymru Wyllt yn cynnal hyfforddiant ar gyfer Cyngor Dinas Abertawe mewn sgiliau arolygu am Lygod Pengrwn y Dŵr yr ucheldir.

## Bygythiadau

Un elfen fawr o’r prosiect oedd nodi’r bygythiadau sy’n wynebu

Llygod Pengrwn y Dŵr mewn amgylcheddau ucheldir. Efallai mai ucheldiroedd Cymru yw ein cyfle gorau ni i atal difodiant Llygod Pengrwn y Dŵr yng Nghymru ac mae'n hanfodol ein bod yn gwybod cymaint ag y gallwn am y bygythiadau maent yn eu hwynebu yn yr ardaloedd hyn a beth gellir ei wneud i'w helpu.

Hyd yn hyn mae'r prosiect wedi tynnu sylw at dri phrif faes sy'n peri pryder i Lygod Pengrwn y Dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Seilwaith fel ffyrdd, adeiladau ac arwynebau caled.
2. Planhigfeydd conwydd ac adfywio conwydd.
3. Presenoldeb y Minc Americanaidd.



Minc Americanaidd. Ffotograff: Tim Melling

## SWAMP

Sefydlwyd Partneriaeth Minc Americanaidd De Cymru (SWAMP) gan Cymru Wyllt ym mis Gorffennaf 2025, gyda'r nod o reoli'r Minc Americanaidd yn Ne Cymru. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys unigolion a sefydliadau amrywiol, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Natur, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Asiantaeth y Cefnffyrdd ac Ymddiriedolaeth yr Afonydd.



Ardal SWAMP yn gorchuddio'r rhan fwyaf o Forgannwg.

Ffurfiwyd SWAMP yn wreiddiol i helpu i warchod Llygod Pengrwn y Dŵr ucheldiroedd Morgannwg, ond daeth yn amlwg yn fuan iawn bod angen i ni feddwl ar raddfa lawer mwy os ydym am warchod Llygod

Pengrwn y Dŵr, ac mae'r prosiect bellach yn cynnwys chwe awdurdod lleol yn ogystal â rhan o dde Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ym mis Tachwedd 2025, llwyddodd Cymru Wyllt i gyllido Swyddog Prosiect o'r Ymddiriedolaeth Adfer Bywyd Dŵr (WRT) i ymgymryd â rheoli'r Minc Americanaidd ar draws ardal SWAMP. Nid dim ond i Lygod Pengrwn y Dŵr mae'r Minc Americanaidd yn fygythiad; mae'n ysglyfaethu ar famaliaid bach eraill, adar sy'n nythu ar y ddaear ac adar afonydd, yn ogystal ag ymlusgiaid, amffibiaid a physgod.




Minc Americanaidd yn cario Llysywen, wedi'i dynnu yng Nghorsydd Teifi, Ceredigion. Ffotograff: Diane Williams.

Mae mwy na 70 o drapiau Mincod wedi cael eu gosod ar draws ardal SWAMP i helpu i reoli eu niferoedd.

Fodd bynnag, os ydym am achub Llygod Pengrwn y Dŵr rhag difodiant, mae angen i ni feddwl a gweithredu ar raddfa fwy fyth. Mae angen i ni ddileu'r Minc Americanaidd o'r DU i gyd, gan ddechrau gyda Chymru. Mae rhai prosiectau rhagorol yn digwydd ar hyn o bryd ledled Lloegr, gydag ardaloedd mawr bellach yn rhydd o'r Minc. Mae'r Llygod Pengrwn y Dŵr a bywyd gwyllt arall yn adfer a does dim unrhyw reswm pam na allwn wneud hynny yng Nghymru.

Ym mis Chwefror 2026, dechreuodd Cymru Wyllt weithio ar ysgrifennu Strategaeth Dileu'r Minc Americanaidd ar gyfer Cymru.




Strategaeth Dileu'r Minc Americanaidd ar gyfer Cymru.

Mae'r strategaeth yn nodi'r rhesymeg dros ymgymryd â dileu'r Minc Americanaidd ledled Cymru, ynghyd â manylion am sut gellir cyflawni hynny.

## Arolygon Rhywogaethau Cefn Garthenor

Ers dechrau 2021, mae INCC wedi bod yn gweithio'n agos gyda pherchennog tir o Geredigion i helpu i drawsnewid fferm ddefaid 88 hectar yn hafan i fywyd gwyllt. Cynhaliwyd arolwg cynefin sylfaen o Gefn Garthenor i ddechrau, i helpu fel sail i gynlluniau creu ac adfer cynefinoedd yn y dyfodol.

Yn dilyn mapio'r cynefinoedd, mae cyfres o arolygon ecolegol wedi cael eu cynnal yng Nghefn Garthenor. Bydd yr arolygon hyn yn parhau i helpu i dargedu nodau adfer yn ogystal â helpu i sefydlu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y safle, a sut gellir cyflawni'r weledigaeth honno.




Gweirlöyn y Cloddiau *Lasiommata megera* sy’n newydd yng Nghefn Garthenor 11/05/25

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, cynhaliwyd llai o arolygon, gyda'r rhan fwyaf o'r amser ar y safle’n canolbwyntio ar lecyn yr Afancod.

Ar ôl cael eu rhyddhau yn y gwanwyn, dechreuodd y ddau Afanc archwilio eu hamgylchedd newydd. Gosodwyd camerâu o amgylch y llecyn fel bod modd monitro eu gweithgarwch. Nid oedd unrhyw warant y byddai'r ddau’n hoffi ei gilydd na'r cynefin.

Dangosodd y lluniau yn fuan iawn eu bod yn treulio amser gyda'i gilydd ac yn dechrau gwneud

newidiadau nodweddiadol i'r cynefin. Torrwyd coed, cafodd ffosydd eu blocio, eu lledu a'u dyfnhau, crëwyd llwybrau newydd i gysylltu ffosydd, ac yng nghanol mieri trwchus a chonwydd oedd wedi cwympo'n naturiol, roedd gwâl yn cael ei chreu.



Argae a phwll afancod yng Nghefn Garthenor.

Mae afancod yn adnabyddus am fod yn beirianwyr ecosystemau ond mae gweld eu gwaith yn agos yn drawiadol iawn. Maent wedi creu pyllau teras o fewn coetir llaith gynt, gan greu cynefinoedd dyfrol newydd a llawer o bren marw.

Mae lluniau fideo hefyd wedi dangos Dyfrgwn yn defnyddio gwlybdir newydd yr Afancod. Bydd eu gwaith o fudd i amrywiaeth eang o dacsa ar y safle.

Un o'r pryderon gyda phrosiect o'r math hwn yw sicrhau bod yr Afancod yn aros lle maent i fod. Felly, roedd raid i ni sicrhau bod y ffens oedd wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer yr Afancod yn gwneud ei gwaith. Cerddodd Jess, ychwanegiad newydd at y tîm yng Nghefn Garthenor, y ffens bob dydd bron. Rhwng yr ymweliadau hyn a'r lluniau camera, gallem weld bod yr Afancod wedi archwilio'r ffiniau hyn i ddechrau ond wedyn wedi canolbwyntio eu gweithgarch yn y cynefin mwy addas.



Un o'r ddau Afanc llawn dwf yn y llecyn.

Mae'r prosiect yn ei gamau cynnar ond, hyd yn hyn, mae'n ymddangos ei fod yn mynd rhagddo'n dda iawn gyda'r Afancod yn ymddangos yn iach ac yn brysur iawn. Maent hefyd yn cael eu gweld gyda'i gilydd yn aml, felly gobeithio y gallant fagu yn y dyfodol agos.



Pwll Afanc wedi'i greu yn ddiweddar yn y llecyn yng Nghefn Garthenor.

Ym mis Mai 2025, cawsom benwythnos preswyl eto gyda myfyrwyr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r trip astudio'n ffordd wych o gefnogi cadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa, yn ogystal â gallu cynnal arolygon a gwaith cadwraeth ymarferol.



Cloddio pwll llinellol yng Nghefn Garthenor.

Eleni, gyda help y myfyrwyr, fe wnaethom lwyddo i gloddio pwll llinellol bas ar gyfer infertebrata dŵr croyw a Llygod Pengrwn y Dŵr yng Nghefn Garthenor. Yn ogystal â gwaith ymarferol, fe wnaethom hefyd lwyddo i gynnal y monitro blynyddol ar lystyfiant y dolydd.

## Cadwraeth Gymunedol yn Nyffryn Aman

Mae Cymru Wyllt wedi bod yn gweithio'n agos gyda pherchnogion tir a chymunedau yn Nyffryn Aman, Sir Gaerfyrddin ers 2018. Ein ffocws oedd adfer rhywogaethau a chynefinoedd yn y dirwedd, ond yn bwysicach fyth, sicrhau hefyd bod cymunedau lleol wrth galon y gwaith o wneud i hyn ddigwydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru Wyllt wedi gallu ymgymryd â nifer o fentrau cadwraeth, yn amrywio o fonitro ecolegol i greu ac adfer cynefinoedd. Rydym bellach yn gweithio gyda nifer o berchnogion tir yn y dyffryn yn ogystal â thrigolion, cymunedau a busnesau lleol.

## Gardd Bywyd Gwyllt

Mae’r ardd bywyd gwyllt gymunedol yn greiddiol i’n gwaith yn Nyffryn Aman. Mae'n lle i fywyd gwyllt a phobl, gan gynnal dolydd a phyllau ochr yn ochr â llwybrau a meinciau.

Ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom lwyddo i ychwanegu pwll bach arall at yr ardd bywyd gwyllt. Mae'r pwll bellach yn llawn planhigion pwll brodorol ac infertebrata dŵr croyw, Madfallod Dŵr Palfog a Llyffantod Dafadennog.



Pwll newydd yn yr ardd bywyd gwyllt gymunedol yn Nyffryn Aman.

Er ei bod yn ardal gymharol fach, mae angen llawer o waith rheoli ar yr ardd bywyd gwyllt, gan gynnwys torri'r ddôl ac atal gormod o brysgwydd rhag ymledu. Mae prysgwydd yn wych ar gyfer bywyd gwyllt, felly rydym eisiau llawer ohono yn yr ardd, ond nid cymaint nes ei fod yn dechrau tagu’r ddôl. Mae gweithgorau’r gwirfoddolwyr yn help mawr. Yn hydref 2025, roeddem yn falch iawn o groesawu gwirfoddolwyr o grŵp Gwirfoddolwyr Cadwraeth Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, ochr yn ochr â’n gwirfoddolwyr lleol, i roi rhywfaint o sylw roedd ei wir angen i’r ardd cyn misoedd y gaeaf. Plannwyd planhigion, cafodd y llwybrau eu cynnal a’u cadw a chynaeafwyd gwair y ddôl.



Gwirfoddolwyr yn yr ardd bywyd gwyllt gymunedol yn cael seibiant cwbl haeddiannol.

## Polydwnnel

Un rhan bwysig o'r ardd bywyd gwyllt yw'r polydwnnel. Y polydwnnel yw lle mae Cymru Wyllt yn tyfu'r rhan fwyaf o'n planhigion Tamaid y Cythraul ar

gyfer y prosiectau Britheg y Gors. Mae adfer cynefinoedd yn hanfodol i'r hyn mae Cymru Wyllt yn ei gyflawni a'r polydwnnel hefyd yw'r lleoliad ble mae planhigion brodorol yn cael eu tyfu'n barod ar gyfer prosiectau adfer.

Mae'r planhigion hyn yn cynnwys y Gludlys Amryliw *Silene gallica*, Penigan y Porfeydd *Dianthus armeria*, Ysgallen y Ddôl *Cirsium dissectum*, Plucen Felen *Anthyllis vulneraria*, Blodyn Neidr *Silene dioica* a Charpiog y Gors *Silene flos-cuculi*.



Penigan y Porfeydd wedi'i dyfu ym mholydwnnel yr ardd bywyd gwyllt.

Mae'r ardd bywyd gwyllt yn ganolbwynt hefyd ar gyfer cynnal digwyddiadau ac arolygon, fel arolygon gwyfynod ac ystlumod. Mae cylchlythyrau misol yn ffordd o roi gwybod i bobl am y bywyd gwyllt i gadw llygad amdano yn y dyffryn, yn ogystal ag awgrymiadau a chyngor ar ddenu mwy o fywyd gwyllt i'r ardd.

## Monitro'r Gwybedog Brith

Mae'r Gwybedog Brith yn un o rywogaethau blaenllaw Cymru Wyllt, gyda phoblogaethau yn Nyffryn Aman, Gwarchodfa Natur Llwyndewi a Chefn Garthenor.




Gwybedog Brith gwrywaidd ar focs nythu yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi.

Dechreuodd y gwaith o helpu'r rhywogaeth yn Nyffryn Aman yn 2019 pan helpodd gwirfoddolwyr i greu a gosod 140 o focsys nythu yn eu lle. Gosodwyd 500 o focsys pellach yn yr ardal yn 2021 a 2022. Cyn ymwneud Cymru Wyllt yn Nyffryn Aman, nid oedd unrhyw gofnodion o'r Gwybedog Brith wedi'u gwneud, ac felly nid oedd ei ddosbarthiad yn hysbys.

Yn 2025, bu mwy fyth o fonitro ar y bocsys nythu gyda help a chefnogaeth modrwywyr adar lleol profiadol a thrwyddedig. Yn anffodus, cafodd poblogaeth y Gwybedog Brith yn Nyffryn Aman flwyddyn siomedig, a chredir bod hynny wedi'i achosi'n bennaf gan gyfnod byr o dywydd gwael yn ystod y cyfnod bwydo cywion hollbwysig.

Yn gynnar yn y tymor magu, cofnodwyd 25 o nythod y Gwybedog Brith. Fodd bynnag, dros yr ychydig wythnosau canlynol, gadawyd 11 o'r rhain yn ystod cyfnod adeiladu'r nyth. Methodd tri nyth arall yn ystod cyfnod dodwy'r wyau a methodd dau nyth arall yn ystod cyfnod y cywion ifanc. Y gred yw mai dim ond 9 nythaid lwyddodd i hedfan y nyth.

Byddwn yn parhau â'n hymdrechion monitro a chadwraeth ar gyfer y Gwybedog Brith yn Nyffryn Aman ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o gynnal ei niferoedd.



Gwybedog Brith gwrywaidd llawn dwf yn cael ei fodrwyo dan drwydded. Ffotograff: Ellyn Baker.

## Monitro Tylluanod Gwynion

Yn ystod y tair blynedd diwethaf rydym wedi bod yn monitro deuddeg bocs nythu ar gyfer y Dylluan Wen *Tyto alba* yn y dyffryn.

Mae'r gwaith yn cael ei wneud gyda help a chefnogaeth nifer o berchnogion tir a gwirfoddolwyr, yn enwedig Cedwyn a Dafydd sydd ill dau'n brofiadol ac wedi'u trwyddedu i fonitro a modrwyo Tylluanod Gwynion. Roedd 2025 yn flwyddyn siomedig i Dylluanod Gwynion o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gyda dim ond dau focs nythu'n cael eu defnyddio gan y rhywogaeth. Modrwywyd chwech o dylluanod bach i gyd ar draws Dyffryn Aman.



Tylluan Wen fechan newydd ei modrwyo yn Nyffryn Aman.

Roedd pâr o Dylluanod Brech *Strix aluco* yn byw mewn un bocs nythu a thair tylluan fechan, oedd yn syrpreis hyfryd.



Tylluan Frech mewn bocs nythu Tylluan Wen.

Mae llawer o focsys nythu'r Dylluan Wen wedi'u gosod ar goed, ac eleni gwelsom fod Gwiwerod Llwyd *Sciurus carolinensis* wedi mynd i fyw i lawer ohonynt. Er mwyn atal hyn rhag digwydd yn rheolaidd, rydym yn bwriadu rhoi malurion coffi wedi'u defnyddio yn y bocsys nythu, i atal Gwiwerod. Nid yw Gwiwerod (yn ôl pob tebyg) yn hoffi arogl coffi ac maent yn osgoi'r ardaloedd hynny. Fodd bynnag, mae gan y Dylluan Wen synnwyr arogl gwael

iawn felly ni ddylai gael ei heffeithio gan y coffi. Gyda gwirfoddolwyr fel Cedwyn a Dafydd, gallwn fonitro poblogaeth Dyffryn Aman o’r Dylluan Wen a chyfeirio camau cadwraeth yn y dyfodol yn well.

## Prosiect Cadwraeth Titw’r Helyg

Tua diwedd 2024, roeddem yn ddigon ffodus i weld un Titw’r Helyg yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi. Titw’r Helyg *Poecile montanus* yw’r rhywogaeth o aderyn preswyl sy’n wynebu’r bygythiad mwyaf yn y DU bellach. Mae’n hynod brin a chredir bod ei boblogaeth wedi dirywio tua 97% ers y 1990au.




Titw’r Helyg.

Roedd ei weld yn y warchodfa natur yn syrpreis braf. Ar y pryd, doedden ni ddim yn gwybod beth oedd statws y boblogaeth leol, nac a oedd y warchodfa natur yn rhan o diriogaeth fagu.

Datgelodd arolygon a gynhaliwyd ar ddechrau 2025 dri o Ditwod yr Helyg yn y warchodfa natur, sy'n boblogaeth fechan a bregus. Fodd bynnag, magodd pâr o Ditwod yr Helyg yn y warchodfa natur yn 2025 a llwyddo i fagu wyth cyw wnaeth hedfan y nyth, oedd yn newyddion ardderchog.




Cywion Titw’r Helyg yng ngheudod y nyth yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi. Ffotograff: Wild Horizons.

I helpu, fe wnaethom hefyd osod 20 o focsys nythu arbenigol yn y

warchodfa natur i ddarparu cyfleoedd nythu ychwanegol.

Mae llawer o drafod o hyd ar effeithiolrwydd bocsys nythu ar gyfer Titw'r Helyg, ond mae angen i ni roi cynnig arni. Er na ddefnyddiwyd yr un o'r bocsys ar gyfer nythu, daeth yr adar i ymchwilio. Mae Titw'r Helyg yn nythu mewn ceudodau y tu mewn i bren marw. Mae angen cloddio siambr nythu bob blwyddyn. Felly, mae'r bocsys nythu'n llawn blawd llif wedi'i gywasgu, i fod yn debyg i bren marw.



Bocs nythu arbenigol ar gyfer Titw'r Helyg gyda siambr hir wedi'i llenwi gyda blawd llif wedi'i gywasgu a naddion pren i fod yn debyg i bren marw.

Yn ogystal â monitro, fe wnaethom lwyddo hefyd i drefnu nifer o ddigwyddiadau gwirfoddoli i helpu i greu a rheoli cynefin ar gyfer Titw'r Helyg yn y warchodfa natur.

Mae creu pyllau o bob maint mewn coetir prysgog yn darparu cyfleoedd chwilio am fwyd ychwanegol i Ditw'r Helyg, yn enwedig pan fydd ganddo gywion i'w bwydo.



Staff a gwirfoddolwyr yn blocio ffosydd yn y coetir i greu pyllau bas.

Yn ogystal â phyllau, roedd y gwirfoddolwyr yn gallu torri a gosod mwy o bren marw yn sefyll i gynnig llecyn nythu yn y dyfodol i Ditw'r Helyg.



Pren marw yn sefyll a Helygen wedi'i rhisglo i ddarparu cynefin nythu i Ditw'r Helyg yn Llwyndewi yn y dyfodol.

I greu mwy fyth o bren marw yn sefyll, cafodd rhai coed Helyg eu rhisglo, proses lle mae rhisgl allanol y goeden yn cael ei dynnu'n llwyr, gan achosi i'r goeden uwchben y llinell wedi’i thorri farw'n araf a darparu pren marw ar gyfer infertebrata a Thitwod yr Helyg. Gan mai Helygen yw’r goeden, bydd yn aildyfu o dan y llinell.

# Adfer Cynefinoedd

Mae Cymru Wyllt yn credu bod rheoli tir ac adfer cynefinoedd yn allweddol i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth y mae Cymru wedi'i weld dros yr ychydig ddegawdau diwethaf.

Yn ogystal, mae rheoli tir yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth Cymru Wyllt o'r materion sydd wrth galon adferiad byd natur yng Nghymru, ac yn rhoi mwy o awdurdod i'n llais ni wrth eiriol dros newid defnydd tir ehangach.

## Fferm Vale

Ers 2023, mae Cymru Wyllt wedi bod yn gweithio ar fferm gymysg o dir âr a gwartheg ym Mro Morgannwg. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r ffermwr tenant i greu fferm sy'n hyfyw yn ariannol ac yn gyfeillgar i fywyd gwyllt.

Mae llawer o'r gwaith wedi canolbwyntio ar gynefin âr y fferm a chreu ymylon llydan o lystyfiant sy'n llawn blodau gwyllt ar gyfer pryfed ac adar sy'n bwyta hadau. Mae cyfran o'r ymylon yn cael eu trin bob blwyddyn i greu tir lle mae tarfu wedi bod ar gyfer planhigion âr blynyddol fel Troed-yr-ŵydd Gwyn *Chenopodium album*.




Bras Melyn gwryw (gaeaf).

Mae gan dri o'r caeau âr mawr ymylon tua 7m o led bellach. Mae'r ardaloedd hyn yn hanfodol i fywyd gwyllt, ac maent yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal un o'n rhywogaethau blaenllaw ar y Fferm - y Bras Melyn *Emberiza citronella.*

Mae'r Bras Melyn yn nythu yn y llystyfiant trwchus wrth fôn gwrychoedd. Felly mae'r ymylon glaswellt yn darparu cynefin nythu

delfrydol ar gyfer y Bras Melyn a bywyd gwyllt arall tir fferm.

Cofnodwyd tri phâr o’r Bras Melyn yn 2025 a’r gobaith yw y bydd modd cynnal mwy o diriogaethau magu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.



Ymylon âr ar y fferm.

Yn ogystal ag adar tir fferm, mae'r fferm hefyd yn gartref i Ddyfrgwn sydd i’w gweld yn rheolaidd ar gamerâu bywyd gwyllt ar yr afon sy'n torri drwy'r fferm. Er mwyn archwilio'r defnydd o gamerâu bywyd gwyllt fel adnodd ar gyfer arolygu, mae Cymru Wyllt wedi cyflogi myfyriwr o Brifysgol Caerdydd ar leoliad 10 mis ar y fferm. Ers mis Medi 2025, mae Faith Campion wedi bod yn gwirio nifer o gamerâu ar y fferm ac yn cofnodi pa rywogaethau sydd wedi’u gweld ac ymhle, ynghyd â manylion fel amser ac ymddygiad. Bydd yr ymchwil nid yn unig yn ein helpu ni i adnabod mwy o'r bywyd gwyllt sy'n defnyddio'r fferm, ond hefyd bydd yn rhoi cipolwg i ni ar sut maen nhw'n defnyddio'r fferm.

## Gwarchodfa Natur Llwyndewi

Mae gwarchod a rheoli tir er budd byd natur yn hanfodol os ydym am wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Yn dilyn dwy flynedd o gydweithredu â'r cwmni dŵr mwynau o Gymru, Brecon Carreg, yn 2024 llofnododd INCC brydles hirdymor a roddodd reolaeth i ni ar fwy na thua 65 hectar o'u tir. Roedd y cwmni eisiau defnyddio eu tir i gyflawni mwy dros fioamrywiaeth ac mae'r warchodfa, o'r enw Llwyndewi ar ôl y fferm a arferai reoli'r tir hwn, bellach yn warchodfa natur gyntaf Cymru Wyllt yn swyddogol.



Tirwedd ucheldirol yn Llwyndewi.

Mae’r tir yn fosäig rhyfeddol o wahanol gynefinoedd ucheldir, o laswelltiroedd corsiog a dolydd i goetir Derw a Rhedyn trwchus.

Yn 2025, roeddem yn falch iawn o dderbyn cyllid blwyddyn o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer gwaith yn y warchodfa natur. Y gobaith yw y bydd y cam datblygu hwn yn arwain at gyfnod cyflawni 5 mlynedd wedi'i gyllido. Mae'r cam datblygu, yn bennaf, yn cynnwys cynnal cyfres o arolygon i gael data sylfaenol am ba rywogaethau sy'n bresennol. Bydd hyn yn cyfarwyddo cynllun rheoli a fydd yn cael ei weithredu wedyn yn y cyfnod cyflawni.

Mae'r arolygon yn cael eu cynnal yn bennaf gan arbenigwyr ac yn cynnwys infertebrata a phlanhigion dyfrol, ystlumod, ffyngau, bryoffytau a phlanhigion uwch, ymhlith eraill. Bydd llawer o waith arolygu’r haf yn cael ei wneud yn 2026 ond rydym eisoes wedi cynnal arolygon ffyngau dros y gaeaf a dechreuodd yr arolygon adar magu ym mis Mawrth.

Yn ogystal ag arolygon, byddwn yn cynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer pori’r glaswelltir asid a chyflwyno Afancod.



Cap Cwyr Balerina *Porpolomopsis calyptriformis* sydd wedi’i ddarganfod ar sawl porfa yn Llwyndewi.

Fe wnaethom hefyd dderbyn cyllid yn 2025 i gyflogi dau fyfyriwr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr dros yr haf, gyda chefnogi cadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa’n rhan bwysig o genhadaeth Cymru Wyllt. Cliriodd y myfyrwyr lawer iawn o Ffromlys Chwarennog, yn ogystal â chynnal

arolygon ac arwain gweithgorau gwirfoddoli.



Matt Brown a Liv Davies, Wardeiniaid Cynorthwyol y Warchodfa Natur 2025.


Bu gwirfoddolwyr yn 2025 yn helpu hefyd i gloddio dau bwll a lledaenu hadau blodau gwyllt i hybu amrywiaeth y blodau yn un o'r dolydd. Fe wnaethom hefyd gynnal gweithgor malurio rhedyn ungoes, gan helpu i leihau goruchafiaeth y planhigyn, sy'n cysgodi llystyfiant arall.

Roeddem wedi cyffroi'n fawr o ddarganfod bod pâr o Ditwod yr Helyg, un o drigolion pwysicaf y safle, wedi llwyddo i fagu nythaid o 8 o gywion ar ôl cloddio ceudod nyth mewn helyg marw. Bydd monitro pellach yn 2026 yn dweud wrthym a ydynt yn magu eto.




Titw'r Helyg wedi magu'n llwyddiannus yn 2025.

Mae trapiau camerâu a osodwyd ar draws y warchodfa wedi parhau i roi cofnodion i ni o fywyd gwyllt nad ydym wedi dod ar ei draws fel arall. Mae'r rhain yn cynnwys Carlwm *Mustela erminea*, Ffwlbart *Mustela nivalis*, Danas *Dama dama* ac Iwrch *Capreolus capreolus*. Yn anffodus, fe wnaethom hefyd gofnodi Minc Americanaidd *Neogale vison* yn y warchodfa, felly rydym wedi gosod dwy rafft Mincod yn eu lle ers hynny, gan eu bod yn niweidiol i amrywiaeth o rywogaethau brodorol.



Iwrch yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi.

# Cefnogi Cadwraethwyr ar Ddechrau eu Gyrfa

Mae cefnogi cadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa wedi bod yn flaenoriaeth i Cymru Wyllt ers i ni gael ein sefydlu yn 2018. Rydym wedi gwneud hyn drwy ddarparu interniaethau amrywiol, swyddi gwirfoddoli a hyfforddiant, yn ogystal â chynnig cyflogaeth i gadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa pan mae hynny'n bosibl.

## Swyddogion Cynorthwyol

Ym mis Mehefin 2025, llwyddodd Cymru Wyllt i gyflogi pedwar Swyddog newydd, diolch i gefnogaeth Sefydliad Moondance. Helpodd dau o'r swyddogion i gefnogi ein prosiect Llygod Pengrwn y Dŵr yn ucheldir Morgannwg ac roedd dau arall wedi'u lleoli yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi.

Hysbysebwyd y swyddi i fyfyrwyr cadwraeth yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr. Yn ogystal â darparu cyflogaeth gyda thâl i bedwar o'r ymgeiswyr, rhoddodd y prosiect brofiad ac adborth hefyd i fyfyrwyr o ran y broses ymgeisio a chyfweld.

Cyfwelodd Cymru Wyllt ddeg myfyriwr ar ôl derbyn deg cais, gan gyflogi pedwar yn y pen draw.

Roedd y swyddi'n rhai rhan amser am bedwar mis, rhwng diwedd tymor y Coleg a dechrau'r flwyddyn academaidd newydd (Mehefin i Fedi). Dewiswyd y cyfnod hwn yn benodol i gefnogi myfyrwyr yn ariannol dros fisoedd yr haf ac i roi sgiliau a phrofiad hanfodol iddynt yn y sector cadwraeth natur.



**Swyddog Llygod Pengrwn y Dŵr Cynorthwyol, Freya Smith**

"Rydw i wedi bod wrth fy modd gyda bywyd gwyllt a'r awyr agored ers pan oeddwn i'n blentyn. Fe wnes i dyfu i fyny yn gwneud y digwyddiadau gwylio adar mawr yn yr ardd gyda fy mam ac fe wnes i dreulio'r rhan fwyaf o fy ngwyliau'n cerdded mewn ardaloedd gwyllt. Felly dydi hi ddim yn syndod fy mod i, erbyn troi'n 13 oed, eisoes wedi

penderfynu fy mod i eisiau gweithio ym maes cadwraeth natur.

Ar ôl gadael yr ysgol, fe wnes i ddilyn fy angerdd drwy gwblhau'r cwrs Cadwraeth Bywyd Gwyllt lefel 3 yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr, gan symud ymlaen i'r HND mewn Cadwraeth Amgylcheddol.

Wrth astudio'r ddau gwrs yma, rydw i wedi dysgu llawer am yr agweddau ffisegol a damcaniaethol ar gadwraeth bywyd gwyllt. Yn ogystal, rydw i wedi dysgu llawer fel aelod o Wirfoddolwyr Cadwraeth Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, grŵp sy'n cael ei redeg gan ein darlithwyr ni i roi cyfleoedd pellach i fyfyrwyr.

Mae llawer o'r tripiau gwirfoddoli yma wedi bod gyda Cymru Wyllt ac felly drwy gydol y tair blynedd diwethaf rydw i wedi gallu cymryd rhan mewn nifer o'u prosiectau nhw, gan gynnwys prosiect Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldir. Dyma pam roeddwn i mor falch pan roddodd Cymru Wyllt y cyfle anhygoel yma i fyfyrwyr ymuno â'r tîm sy'n arolygu'r creaduriaid anodd eu gweld yma.

Yn ystod y tri mis diwethaf, rydw i wedi ennill nifer o sgiliau gwerthfawr: sut i arolygu Llygod Pengrwn y Dŵr yn yr ucheldir, sut i adnabod arwyddion maes a sut i ddweud y gwahaniaeth rhwng rhywogaethau tebyg. Fe wnes i hyd yn oed lwyddo i gael hyfforddiant cymorth cyntaf a chodi arian.

Gan fod Llygod Pengrwn y Dŵr yr ucheldir wedi gorfod addasu i gynefin gwahanol i'r rhai yn yr iseldir, mae'r swydd yma hefyd wedi darparu sgil unigryw o ran gallu adnabod dewisiadau cynefin sy'n benodol i'r amgylchedd yma. Rydw i hefyd yn teimlo bod gweithio gyda phrosiect parhaus yn gyffrous gan fy mod i wedi gallu darganfod gwybodaeth newydd ochr yn ochr â'r tîm, rhywbeth y byddaf yn bendant yn ei golli pan fydd y swydd yma'n dod i ben. Mae casglu samplau ar gyfer dadansoddiad eDNA ac adolygu fideos trapiau camera yn ddim ond dau weithgaredd sy'n rhan o hyn.

Mae'r swydd yma wedi bod yn gyfle gwerthfawr i weithio mewn lle sy'n gwneud i mi deimlo fy mod i'n gallu gofyn am help a siarad gyda holl aelodau'r grŵp ac, fel person ifanc sydd ar fin cwblhau fy ngradd, mae cael y profiad yma yn fy rhoi i mewn sefyllfa gryfach wrth wneud cais am swyddi yn y dyfodol.

Yn y dyfodol, fe hoffwn i weithio yn yr ucheldir gan fod gen i ddiddordeb brwd yn y rhywogaethau sydd yno. Mae gen i ddiddordeb arbennig mewn adfer mawn a bryoffytau a diolch i Cymru Wyllt a'r cyfle yma, rydw i wedi datblygu mwy o wybodaeth yn y maes yma."



**Swyddog Llygod Pengrwn y Dŵr Cynorthwyol, Laura Griffiths**

“Ar ôl treulio degawd yn gweithio gyda phlant mewn ysgolion ac ysbytai, roeddwn i’n teimlo’n barod am bennod newydd. Rydw i wedi hoffi byd natur erioed, o’r profiadau plentyndod cynnar hynny o syrthio i’r ffos wrth ymyl fy nhŷ yn ceisio dal madfall ddŵr a gwneud gwasg flodau gartref o gerrig, ond doeddwn i ddim wedi sylweddoli'n iawn bod sector cadwraeth cyfan allan yna. Po fwyaf roeddwn i'n ymchwilio i bosibiliadau gyrfa, y mwyaf sicr oeddwn i mai hwn oedd y llwybr i mi.

Roedd penderfynu dechrau ar yrfa newydd ym maes cadwraeth yn newid sylweddol, felly fe wnes i ddechrau drwy gofrestru ar gwrs HND rhan amser mewn Rheoli Cadwraeth Amgylcheddol yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr.

Rydw i wedi dysgu cymaint hyd yma, o reoli glaswelltiroedd a choetiroedd i arolygu adeiladu ffensys a phlygu gwrychoedd, a dim ond hanner ffordd drwy’r cwrs ydw i! Mae gan y coleg hefyd raglen wirfoddoli cadwraeth wych i helpu i ddatblygu’r sgiliau hanfodol hynny ac mae’n gweithio’n rheolaidd ar y cyd â Cymru Wyllt ar brosiectau.

O ganlyniad i’r gwaith yma gyda Cymru Wyllt, fe ddaeth cyfle anhygoel i mi wneud cais am interniaeth haf fel Swyddog Llygod Pengrwn y Dŵr Cynorthwyol, ac roeddwn i'n ddigon ffodus i gael un o'r swyddi. Dros yr haf, rydw i wedi dysgu'r protocol ar gyfer arolygu mewn amgylchedd sy'n gallu bod yn arw iawn, sut i adnabod cynefinoedd ac arwyddion maes Llygod Pengrwn y Dŵr yn yr ucheldir, sut i osod camerâu bywyd gwyllt yn eu lle i fonitro presenoldeb y Minc Americanaidd ymledol ac ysglyfaethus, a sut i gasglu, cofnodi a storio tail ar gyfer dadansoddiad eDNA. Rydw i wedi cydweithio gyda chydweithwyr o sefydliadau eraill, wedi cynrychioli Cymru Wyllt mewn digwyddiad natur cymunedol, ac wedi cwblhau amryw o gyrsiau hyfforddi, gan gynnwys cymorth cyntaf yn yr awyr agored a chodi arian.

Fodd bynnag, yn bwysicach na dim, mewn sector lle rydyn ni'n gwybod bod cystadleuaeth fawr am swyddi, fe roddodd y swydd yma gyfle yr oedd ei wir angen i rywun ar ddechrau ei yrfa ddysgu sgiliau newydd yn y rôl gadwraeth gyntaf hanfodol honno. Mae hefyd wedi cadarnhau i mi fy mod i wir yn caru arolygu bywyd gwyllt, ac rydw i'n

bwriadu dal ati i ddatblygu fy ngwybodaeth am wahanol rywogaethau o fywyd gwyllt er mwyn gallu ei defnyddio er lles yn fy rôl gadwraeth nesaf!



**Warden Gwarchodfa Natur Cynorthwyol, Matt Brown**

Cyn gynted ag yr ydw i'n cyrraedd Rhydaman, rydw i'n gallu teimlo'r straen yn diflannu. Mae hyn yn anarferol gan fod y pryder, gyda swyddi blaenorol mewn sectorau eraill, yn tueddu i gynyddu wrth i mi agosáu. I mi, mae gweithio yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi, rhan o stad Brecon Carreg sy'n ffinio ag Aberhonddu a Sir Gaerfyrddin, wedi teimlo mwy fel braint na thasg.


Mae'r gwaith wedi bod yn amrywiol er fy mod i wedi treulio'r haf yn cael gwared ar Ffromlys Chwarennog *Impatiens glandulifera* ymledol yn bennaf - tasg hanfodol gan fod y warchodfa'n cynnwys tarddiad afon Llwchwr. Gyda help gwirfoddolwyr dygn a chontractwyr gweithgar, rydyn ni wedi llwyddo i greu gwir effaith. Gyda monitro a rheoli parhaus dros y blynyddoedd nesaf, fe ddylai arwain at ei weld yn diflannu.

Mae rheoli'r Rhedyn *Pteridium aquilinum* wedi cymryd llawer o'n hamser ni hefyd. Er bod y rhywogaeth yn frodorol, heb ei rheoli, gall feddiannu darnau eang o dir gan atal glaswelltau a phlanhigion llysieuol eraill rhag ffynnu. Mae'r gwaith o reoli'r Rhedyn wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth oherwydd rhai technegau arloesol sydd wedi'u cyflwyno gan staff a myfyrwyr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr - sydd â chysylltiadau agos â Cymru Wyllt, gan fy mod i'n gyn-fyfyriwr fy hun. Gobeithio bydd hyn yn gosod sylfaen i wahodd mwy o laswelltau, planhigion ac ati i hadu ac adfer y glaswelltir asid i'w ogoniant blaenorol.

Un o'r prosiectau hirdymor yn y warchodfa yw'r posibilrwydd o ailgyflwyno'r Cimwch Afon Crafanc Wen *Austropotamobius pallipes* i afon Llwchwr. Er nad yw wedi'i gofnodi yn yr ardal yn ôl cofnodion modern, y gred yw y byddai'r cynefin yn sicr wedi bod yn ffafriol i'w oroesiad. Ar hyn o bryd, rydym yn y cyfnod dichonoldeb, ac mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau DNA rheolaidd ar yr afon i sicrhau nad oes unrhyw glefydau yn y dŵr a allai atal eu parhad.

Ar lefel bersonol, rydw i wir wedi mwynhau fy amser yn y warchodfa ac yn gweithio gyda thîm Cymru

Wyllt a'u gwirfoddolwyr cysylltiedig. Rydw i wedi dysgu llawer iawn am beth sydd ei angen i reoli gwarchodfa natur a byddaf yn sicr yn mynd â'r profiad yma hefo fi ar gam nesaf fy siwrnai. Mae fy nghytundeb i ar gyfer yr haf wedi dod i ben bellach, a byddaf yn mynychu Prifysgol De Cymru i gwblhau fy BSc mewn Hanes Naturiol ym mis Medi. Rydw i wastad wedi mwynhau'r amrywiaeth o swyddi yn y sector cadwraeth ac er fy mod i'n paratoi fy hun i ddilyn gyrfa fel warden / ceidwad, fe fyddwn i wrth fy modd yn parhau yn y byd academaidd a chael y cyfle i ddefnyddio fy ymchwil yn y maes. Diolch yn fawr iawn i Rob, Vaughn a Lizzie am y cyfle anhygoel - rydw i'n edrych ymlaen at eich gweld chi yn y dyfodol, ym mha bynnag swyddogaeth fydd hynny."



**Warden Gwarchodfa Natur Cynorthwyol, Liv Davies**

"Mae ein planed ni mewn argyfwng ar hyn o bryd. Yn aml, rydyn ni'n gallu anwybyddu'r argyfwng sydd ar droed drwy gysgodi mewn corneli tawel fel Cymru, wedi'n hamgylchynu gan wenyn yn suo ac adar yn canu, ond mae'n digwydd ac mae'n digwydd yn gyflym. Dydi ein planed ni ddim wedi profi rhywogaeth mor ddinistriol â'r *Homo sapiens* erioed, a heb swnio'n rhy ddramatig, ein hangen diddiwedd ni am bethau, os bydd yn cael parhau, fydd ein diwedd ni. Ffasiwn cyflym, dwysáu ffermio, gwastraff bwyd a phlastig untro - dim ond rhai enghreifftiau o'r holl bwysau rydyn ni'n ei wthio ar ein craig arnofiol werthfawr. Felly, mae'n bwysig iawn nawr, yn fwy nag erioed, ein bod ni'n dod at ein gilydd ac yn cymryd camau gweithredu. Dydi hyn ddim yn golygu bod angen i gamau gweithredu fod yn enfawr; mewn gwirionedd, mae gweithredoedd bach yr un mor bwysig. Er enghraifft, un rhan o fy swydd i gyda Cymru Wyllt yw rheoli rhywogaethau ymledol - tynnu Ffromlys Chwarennog o'r ddaear, un planhigyn ar y tro!

Rydw i'n oedolyn ifanc sy'n byw yn Ne Cymru ac rydw i wedi cael y fraint o gael fy magu yng nghoedwigoedd a dyffrynnoedd gwyrddlas De Cymru, felly mae gen i gysylltiad dwfn â byd natur erioed. Wrth i mi dyfu'n hŷn, rydw i wedi dysgu deall pwysigrwydd cynhenid a chadarn byd natur, sut rydyn ni'n rhan o fyd natur a heb ei gydbwysedd, 'fyddai dim bywyd, ac ie, 'fyddai dim 'ni'.

Rydw i'n manteisio ar unrhyw gyfle i weithio ym maes cadwraeth ac felly roedd cael y swydd gyda Cymru Wyllt yn berffaith i mi ac wir yn fendith. Yma, rydw i'n gwybod fy mod i'n gwneud gwahaniaeth, mewn ffordd fechan, ond mae'n gam i'r cyfeiriad cywir. Mae’r ffaith bod Cymru Wyllt wedi sicrhau ac yn gwarchod Gwarchodfa Natur Llwyndewi, lle rydw i'n Warden Gwarchodfa Natur, yn creu gofod lle gall byd natur ffynnu a lle gall ecosystem fyw mewn cydbwysedd.

Rydw i wir yn credu mai'r allwedd i achub ein byd ni yw'r genhedlaeth iau. Y genhedlaeth iau yw'r dyfodol, gan mai dyma pwy fydd yn etifeddu'r blaned yma, sydd wedi cael ei chosbi cymaint am gymaint o flynyddoedd. Fodd bynnag, heb ddeall byd natur, pam fyddai pobl eisiau ei warchod? O brofiad personol, rydw i'n credu bod cael eu cyflwyno i fywyd gwyllt ac ecoleg o oedran ifanc yn allweddol i gysylltu pobl â'r tir, ac felly sicrhau ei ddyfodol. Mae plant sydd wedi tyfu i fyny mewn dinasoedd, yn mynd i'r ysgol mewn amgylcheddau trefol, yn dod adref i dŷ mewn amgylchedd trefol, yn tyfu i fyny i fynd i weithio mewn amgylchedd trefol, yn dueddol o fyw mewn siambr atsain o adeiladau brics a mygdarth petrol, ac efallai na fyddan nhw byth yn deall bod coed yn gallu siarad gyda'i gilydd drwy rwydwaith mycorhisol o ffyngau yn y pridd, neu fod Bwncathod yn paru am oes, neu fod gan bob aderyn amrywiaeth wahanol o ganeuon sy'n galluogi iddyn nhw gyfathrebu gyda'i gilydd, ac yn bwysicach na dim - mai byd natur ydyn ni; a hebddo, dydyn ni’n ddim byd.

Un o'r camau pwysicaf y gallwn ni eu cymryd nawr yw cysylltu pobl ifanc â natur. Mae angen i ni ei gwneud yn haws ac yn fwy deniadol i genedlaethau iau godi allan, cymryd rhan, a theimlo ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros y byd naturiol o'u cwmpas. Mae prosiectau gwirfoddoli fel cael gwared ar Ffromlys Chwarennog neu ddyddiau adfer cynefinoedd nid yn unig yn ffordd wych o helpu bywyd gwyllt, ond hefyd o greu profiadau ystyrlon sy'n aros gyda phobl am oes. Mae'n bwysig bod y cyfleoedd yma ar agor i bawb o bob cefndir ethnig ac economaidd. Ar hyn o bryd, mae diffyg amrywiaeth o hyd mewn mannau cadwraeth, ac mae angen i hynny newid. Os ydyn ni wir eisiau gwarchod byd natur, rhaid i ni sicrhau bod pawb yn teimlo'n gartrefol ynddo. Ni ddylai byd natur fod yn eiddo i griw bach breintiedig, ond ar agor i bawb. Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd, nid ar ein pen ein hunain. Gall y cyfryngau cymdeithasol chwarae rhan bwerus yn hyn. Mae'n un o'r adnoddau mwyaf effeithiol sydd gennym ni i gyrraedd cynulleidfaoedd iau a chymunedau trefol sydd heb fynediad hwylus i lecynnau gwyrdd. Ond y tu hwnt i ddim ond ymwybyddiaeth, mae’n

rhaid i ni weithredu; digwyddiadau cymunedol, allgymorth cynhwysol, a phartneriaethau lleol sy'n goresgyn rhwystrau ac yn meithrin cysylltiadau parhaol rhwng pobl a lle.

Yng nghanol argyfwng iechyd meddwl cynyddol, mae'n hawdd anghofio bod ein cyrff a'n meddyliau ni wedi'u haddasu ar gyfer natur. Rydyn ni'n dyheu yn yr isymwybod am gân adar, awyr lydan a choed a dydi llawer o bobl ddim hyd yn oed yn sylweddoli beth sydd ar goll nes iddyn nhw ddod o hyd iddo. Gall yr ailgysylltu hwnnw fod yn iachâd dwys. Mae sefydliadau fel Cymru Wyllt yn chwarae rhan yn y genhadaeth hon, nid dim ond drwy warchod bywyd gwyllt, ond drwy greu cyfleoedd i bobl ifanc ei ddeall a'i gefnogi. Mae ein gwaith ni'n helpu i fagu cenhedlaeth newydd o gadwraethwyr sy'n gweld y byd naturiol nid fel rhywbeth pell, ond fel rhywbeth gwerthfawr a gwerth ymladd drosto. Dyma sut mae newid yn dechrau drwy weithredu, cynhwysiant, a phwrpas sy'n cael ei rannu. A does dim amser i'w wastraffu."

## Penwythnos Preswyl Cefn Garthenor

Mae'r penwythnos preswyl tridiau yng Nghefn Garthenor yn dod yn ddigwyddiad blynyddol. Eleni, fe wnaethom lwyddo i gefnogi nifer fawr o fyfyrwyr dros y penwythnos, a ymunodd gyda ni i greu pyllau, cynnal arolygon cynefinoedd a botanegol, a monitro gwyfynod.



Monitro cwadrat botanegol yn un o'r dolydd wedi'u hadfer yng Nghefn Garthenor.

## Penwythnosau Preswyl Llwyndewi

Yn ogystal â chyflogi dau swyddog newydd yn y warchodfa natur yn 2025, llwyddodd Cymru Wyllt hefyd i drefnu dau benwythnos preswyl i fyfyrwyr. Roedd y cyntaf ym mis Ebrill 2025 yn cynnwys gwersylla yn y warchodfa gyda'r nos a chloddio pwll mawr yn ystod y dydd. Gweithiodd y myfyrwyr a'r staff gyda'i gilydd i gloddio pwll mawr yn y glaswelltir corsiog i ddarparu cynefin ychwanegol ar gyfer

amffibiaid ac infertebrata dŵr croyw.



Myfyrwyr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr yn cloddio pwll dwfn yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi.

Yn dilyn llwyddiant y penwythnos preswyl cyntaf yn Llwyndewi, trefnodd Cymru Wyllt ail drip maes tridiau ym mis Tachwedd 2025, unwaith eto i gloddio pwll mwy. Arhosodd y myfyrwyr mewn Tŷ Bync lleol gyda'r nos a threulio'r oriau o olau dydd yn cloddio pwll mwy fyth.



Pwll mawr wedi'i greu gyda help myfyrwyr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr.

## Monitro Rhywogaethau gan ddefnyddio Camerâu Llwybr Bywyd Gwyllt

Ym mis Medi 2025, ymunodd Faith Campion â'r tîm o Brifysgol Caerdydd, fel rhan o'i rhaglen blwyddyn mewn diwydiant.



Faith yn gosod camera bywyd gwyllt yn ei le.

Ers ymuno â'r tîm ym mis Medi, mae Faith wedi bod yn monitro bywyd gwyllt Fferm Vale, Cefn Garthenor (safle'r Afancod), a Gwarchodfa Natur Llwyndewi. Mae'r monitro wedi bod ar ffurf camerâu llwybr bywyd gwyllt yn benodol.

Mae'r bywyd gwyllt sy'n cael ei weld yn y fideos yn cael ei adnabod ac mae manylion am ymddygiadau'r anifeiliaid ar y pryd yn cael eu nodi,

yn ogystal â’r dyddiad a’r amser o’r dydd. Mae hyn er mwyn creu darlun o sut mae gwahanol rywogaethau'n defnyddio'r tri safle gwahanol.



Crëyr Glas yn dal brithyll yn yr afon.

Mae rhai o'r rhywogaethau a ddarganfuwyd ar y camera llwybr wedi bod yn eithaf annisgwyl ac yn cynnwys pâr o Ddyfrgwn *Lutra lutra* a Rhegen y Dŵr *Rallus aquaticus* yn Fferm Vale, Ffwlbart *Mustela putorius* yng Nghefn Garthenor a Danas yn Llwyndewi.

# Natur Cymru

Ym mis Ionawr 2026, cyrhaeddodd *Natur Cymru* garreg filltir, gan ddathlu ei bumed pen-blwydd ers i Cymru Wyllt gymryd yr awenau gyda'i gyhoeddi.

Mae'r cylchgrawn yn parhau i dyfu'n gyson, gyda thwf net o ychydig o dan 4% mewn tanysgrifwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, gan alluogi i ni wneud iawn am y newidiadau mewn costau cynhyrchu (mae'r costau argraffu a phostio wedi codi yn ystod y deuddeg mis diwethaf). Dim ond 4.3% oedd ein cyfradd newid dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n isel iawn o gymharu â meincnodau cyfryngau a chyhoeddi. Mae llawer o'n tanysgrifwyr ni'n ychwanegu rhoddion gwirfoddol hefyd, ar ben eu taliadau tanysgrifio. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl ddarllenwyr.

Fe wnaethom newid cynnil i'n brand eleni, fel y gallwch weld yn y lluniau clawr a ddangosir, gan symud oddi wrth y pennawd cymysg gwyrdd i las y mae'r cylchgrawn wedi'i ddefnyddio ers ei rifyn cyntaf, i liw bloc sengl. Mewn rhifynnau yn y dyfodol, bydd y lliw hwn yn newid i gyd-fynd â'r gwaith celf, gan roi golwg fymryn yn fwy cyfoes i'r cylchgrawn.




Gwaith celf cloriau rhifynnau 72 (haf 2025, yr artist Lily Anderson) a 73 (gaeaf 25-26, yr artist Josie Russell).

Rydym yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar i'n cyfranwyr gwybodus a hael, sy'n galluogi i ni gyhoeddi ystod mor eang o gynnwys sy'n cwmpasu pob ardal o Gymru a llawer o gynefinoedd, tacsonau a phrosiectau gwahanol. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau cydbwysedd ar draws yr holl feysydd hyn, a chynnal y cydbwysedd rhywedd sy'n bodoli yn ein hawdurdodaeth hefyd.

Rydym hefyd wedi ceisio ymestyn ein cyrhaeddiad a'n heffaith eleni drwy adolygu defnydd *Natur Cymru* o gyfryngau cymdeithasol. Rydym wedi camu oddi wrth X yn swyddogol, gan beidio â phostio ar y

platfform hwnnw mwyach, er bod ein proffil yn parhau i fod yn weladwy. Gyda rhodd, fe wnaethom lwyddo hefyd i sicrhau cyngor gan ymgynghorydd cyfathrebu (Carys Comms) i wella ein strategaeth cyfryngau cymdeithasol.




Ar gyfer Facebook a Bluesky, mae cynnwys sy'n dathlu bywyd gwyllt Cymru yn parhau i fod yn boblogaidd.

Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf hon ar Bluesky, tyfodd nifer ein dilynwyr - gyda'r cyfanswm bellach yn 283. Mae hwn yn parhau i fod yn nifer cymedrol, ond rydym yn profi rhyngweithio da ar y platfform hwn, yn enwedig gyda'n cynnwys newyddion da yn y Gymraeg.

Rydym hefyd yn cyhoeddi ar Facebook (1750 o ddilynwyr) a LinkedIn (platfform newydd i ni hefyd: 344 o ddilynwyr). Yn ogystal â thestun ffeithiol am fywyd gwyllt, mae'r cynnwys yn gyffredinol yn canolbwyntio ar swyddi gwag amgylcheddol yng Nghymru (yn enwedig ar LinkedIn) a hyrwyddo uniongyrchol ar y cylchgrawn a'i gynnwys (pob platfform).

Diolchwn i'n dylunydd Louise Waring o AC9 Design, a'n cyfieithydd Haf Roberts.

## Gair o Ddiolch

Er mwyn cyflawni'r hyn rydym yn ei wneud dros fywyd gwyllt a chadwraeth natur yng Nghymru, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth garedig a hael cyfranwyr, tanysgrifwyr, cefnogwyr a gwirfoddolwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl unigolion, y sefydliadau a'r mudiadau hynny sy'n cefnogi ein gwaith. Diolch.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Sefydliad Waterloo am eu cefnogaeth barhaus i'r elusen a'n gwaith.

Diolch hefyd i Sefydliad Garfield Weston, Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd, Ymddiriedolaeth Oakdale, Ymddiriedolaeth y Bobl, Cymdeithas Adareg Cymru, Brecon Carreg, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Sefydliad Moondance am eu cyfraniadau hael tuag at ein prosiectau cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd amrywiol.

Hoffai Cymru Wyllt ddiolch yn arbennig i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi helpu'r elusen i gyflawni cadwraeth natur. Hoffem ddiolch yn arbennig i Jan Slade, sy'n gwneud gwaith mor anhygoel yn rheoli gardd bywyd gwyllt Cymru Wyllt yn Nyffryn Aman. Hefyd, Cary Growether a phawb yn Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant. Diolch arbennig hefyd i Lyn Evans, Alex Godfrey, Robyn Seabrook a myfyrwyr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr am eu help a'u cefnogaeth gyda chymaint o'n prosiectau ni ledled Cymru. Hefyd yr holl gyfranwyr i *Natur Cymru*, y mae llawer ohonynt yn gwirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd yn llwyr.

Diolch arbennig hefyd i'n Llywydd Anrhydeddus - Iolo Williams yn ogystal â Geoff Powell, Louise Waring, a Haf Roberts.